# PAPURAU BUSNES

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 21 MAWRTH 2000

## RHAN 2 – ADRAN H

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm**

**2.01pm**
**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd**
Gofynnwyd y 6 chwestiwn cyntaf

**2.39pm**
**Cwestiwn Brys i'r Prif Ysgrifennydd ar Ddatblygu Economaidd**

Brian Gibbons (Aberafan): A wnaiff wneud datganiad ar oblygiadau'r digwyddiadau yn Rover yr wythnos ddiwethaf ar sector cydrannau ceir Cymru.

**2.49pm**
**Datganiad: Gwnaeth y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar Ryddid Gwybodaeth**

**3.09pm**
**Datganiad Busnes**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.12pm**
**Datganiad Busnes: Datganiad ar yr Amserlen**
Cynnig y dylai'r Cynulliad, yn unol â rheol sefydlog 5.1, fabwysiadu'r amserlen fras ar gyfer y cyfarfodydd llawn, yr amseroedd sydd ar gael ar gyfer cynnal cyfarfodydd y pwyllgorau, cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol a thoriadau hyd at 16 Mehefin 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 42

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 42

Cymeradwywyd y cynnig.

**3.14pm**
**Cymeradwyo Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd 1999 (Rhif 2) 2000**

Cynnig bod y Cynulliad:

• yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy'n ymwneud â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd 1999 Rhif 2 (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000

• yn ystyried egwyddor y Gorchymyn drafft

• yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2000

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 33

Ymatal 0

Yn erbyn 6

Cyfanswm 39

Cymeradwywyd y cynnig.

**Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Practisau sy'n dal Cronfa) (Trosglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2000**
Cynnig bod y Cynulliad:

• yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy'n ymwneud â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Practisau sy'n dal Cronfa) (Trosglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000

• yn ystyried egwyddor y Gorchymyn drafft

• yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2000

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 37

Ymatal 0

Yn erbyn 6

Cyfanswm 43

Cymeradwywyd y cynnig.

**4.05pm**

**Gorchmynion Brys**
Bydd y Trefnydd yn cyflwyno Cynnig Trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.9 (i ganiatáu'r ddadl ar y cynnig canlynol) fel mater o bwysigrwydd cyhoeddus brys

1. Cynnig bod: y Cynulliad yn nodi bod y gorchmynion canlynol (sydd ar y safle Is-ddeddfwriaeth (brys) ar y fewnrwyd) wedi cael eu gwneud o dan y weithdrefn frys:

- Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau ar gyfer Adfer y Stoc Penfreision) (Môr Iwerddon) (Cymru) 2000.
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2000.
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Hawlio) (Diwygio) (Cymru) 2000.
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru) 2000.

2. Mae’r Cynulliad yn cydnabod y gall fod angen gwneud is-ddeddfwriaeth ar frys o dro i dro ac yn gofyn i’r Trefnydd drefnu bod y Pwyllgor Busnes yn rhoi ystyriaeth frys i’r mater o ddelio ag is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol i gadw nifer y gorchmynion sydd angen eu gwneud trwy gyfrwng y weithdrefn hon i’r lleiafswm.

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:**

O blaid 32

Ymatal 6

Yn erbyn 7

Cyfanswm 45

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 25

Ymatal 10

Yn erbyn 7

Cyfanswm 42

Cymeradwywyd y cynnig.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.58pm**

***************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mercher, 22 Mawrth 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**PAPURAU A OSODWYD YN Y SWYDDFA GYFLWYNO ERS CYFARFOD LLAWN DIWETHAF Y CYNULLIAD**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 17 MAWRTH 2000**

Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99 - Adroddiad Cyffredinol

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 16 MAWRTH 2000**

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Gostyngiadau) a (Darpariaethau Trosiannol Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2000

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Gostyngiadau) a (Darpariaethau Trosiannol Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2000 - ATODLEN

Report of the Comptroller and Auditor General - NHS (Wales) Summarised Accounts 1998-99

(dim copi Cymraeg ar gael)

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 15 MAWRTH 2000**

Cyllidebau Arfaethedig ar gyfer 1999-2000 o Ganlyniad i Drosglwyddo rhwng Grwpiau Prif Wariant

Nodiadau ar gyfer Trosglwyddiadau'r Cynnig

Welsh Church (Burial Grounds) Act 1945, Section 4(2) - Confirmation of Order made by the Representative Body of the Church in Wales (dim copi Cymraeg ar gael)